

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid yng Nganolfan Gymued Penrhos
am 7.00pm Nos Fercher 29^{ain} o Fawrth 2023

Agenda

- 1) Presennol
- 2) Ymddiheuriadau
- 3) Cod Ymddygiad
- 4) Cofnodion Cyfarfod diwethaf 22-02-2023
- 5) Materion yn codi o'r cofnodion
- 6) Adroddiad Ariannol
 - Mantolen Ariannol
- 7) Archwyllo
- 8) Cofrestr Risg/Polisia
 - a. Cynllun Hyfforddiant
- 9) Taliadau angen sylw
 - a. Cyflog Mawrth £ 651.84
 - b. HMRC M 12 £ 163.00
 - c. Traelia Cynghorwyr £156 x 11 £ 1,716.00
 - d. Berfa £ 720.00
 - e. Menai Cleaning £ 714.00
 - f. Cyngor Gwynedd torri gwait Ych £1,419.22
 - g. Archwilio Cymru 19-20 £ 360.00
 - h. Archwilio Cymru 20-21 £ 320.00
 - i. Delwedd Lletya a Cyn a Chadw £ 467.99
 - j. Cymen Cyf Cyfieithu £ 369.65
 - k. Scottish power £ 75.98
 - l. Hughes and Hughes £10,100.00
Nenfed a paentio capel bach
- 10) Ceisiadau Nawdd
- 11) Prosiectau
 - i. Ysgol Y Faenol
 - ii. Septic tanc Glasinfryn
 - iii. Cae chwarae Caerhun
 - iv. Capel y Fynwent
 1. Llawr newydd
 - v. Cysgodfannau
 1. Cylchlythyru ymatebion ??
 2. Cyngor Gwynedd
 - b. Cwt y Fynwant
 1. Amcanbris
- 12) I'w trafod hefyd

Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid yng Nganolfan Gymued Penrhos
am 7.00pm Nos Fercher 22^{ain} o Chwefror 2023

1. Presennol Cyng L A James (Cadeirydd) Cyng I Ellis; Cyng B. Jones; Cyng D Jones-Morris; Cyng D W Jones Cyng J Lewis
2. Ymddiheuriadau
Cyng J Pierce:
3. Cod Ymddygiad Esbonwyd y drefn i ddatgan buddiant a bod ffurflenni ar gael gan y Clerc
Cyng L A James yn datgan ei bod ar bwyllgor y ganolfan bresennol
4. Cofnodion Cyfarfod diwethaf 25-01-2023
 - i. Cynnigwyd eu cywirdeb gan y Cyng J Lewis ag eilwyd gan y Cyng I Ellis
5. Materion yn codi o'r cofnodion
Cyfarfod safle wedi bod a cytunwyd fod safle Bryn Ogwen yn addas ar gyfer cysgodfan lawn tra na lle i ½ cysgodfan oedd wrth Goleufryn. Cylchlythra trigolion cyfagos yn barod unwaith byddai cadarnhad gan Cyngor Gwynedd wedi'n cyrraedd
Dim diweddariad am Capel Graig o Gwynedd
6. Adroddiad Ariannol
 - I. Mantolen Ariannol
Roedd copia o'r fantolen ariannol wedi ei rhannu yn dangos £35,632.00c yn y Cyfrif Cyfredol a £45,125.79c yn y cyfrif cadw
 - II. Hawlio Praesept
Y praesept am £55K wedi ei hawlio yn sgil penderfyniad y Cyngor Llawn i gadw at yr un swm a chadarnhad wedi ei dderbyn o'n cais
7. Archwyllo
Dim ymateb wedi ein cyrraedd
8. Cofrestr Risg/Polisia
 - i. Cynllun Hyfforddiant
Y Clerc wedi derbyn y mwyafrif o'r Ffurflenni asesu ond dim bob un.
Apelwyd i'r gweddill gyflwyno
9. Taliadau angen sylw
Argymhellwyd talu'r canlynol
Cyflog Chwefror £ 651.84 HMRC M 11 £ 163.00 Howard Huws Cyfieithu £ 40.00
Unllais Cymru Hyfforddiant £ 35.00 Hughes & Hughes £ 400.00
Trydan Glasinfryn -pwy sy'n talu £ 140.00 Cyngor Pentir i dalu gan mae nhw yw'r perchnogion
Aelodaeth Unllais £ 530.00
10. Ceisiadau Nawdd
 - 1, Rachel Heal – Beic i Ysgol Hafod Lon
Y Clerc wedi cysylltu i esbonio na allwn gefnogi at brosiect personol – nid oedd yr Ysgol yn rhan o'r prosiect
 - 2, Caitlin Sherret Cymorth Canser McMillan **Awgrymu fod y Clerc yn holi am fantolen ariannol leol**
 - 3, Canolfan Glasinfryn **Argymell ein bod yn cyfranu £300.00**
 - 4, Grwp Ioga Glasinfryn **Argymell ein bod yn cyfranu £300.00**

- 5, Cylch Glasinfryn **Argymell ein bod yn cyfranu £300.00**
6, Grwp Arlunio Glasinfryn **Argymell ein bod yn cyfranu £300.00**
7, Canolfan Penrhosgarnedd **Argymell ein bod yn cyfranu £300.00**

ar ol derbyn eu mantolen ariannol

11. Prosiectau

c. Ysgol Y Faenol

Ein cyfreithwyr wedi derbyn gwahoddiad i ni gyfarfod Swyddogion Gwynedd i drafod y parcio ceir sy'n digwydd ar ein maes parcio. Cytuno i gyfarfod unwaith byddai e-bost yn ateb ymholiad ein cyfreithwyr.

Datganwyd gwir bryder ynglyn a'r ffaith fod bellach rieni yn gollwng a chdi eu plant i/o'r Ysgol ar dir y Ganolfan bresennol tra nad oedd ganddynt hawl i wneud hynny na fod gan y Ganolfan Ysw i gyfro tae damwain yn digwydd i unrhyw un oedd ddim yn ddefnyddwyr o'r Ganolfan

Clerc i anfon at ein Cyfreithwyr

d. Septic tanc Glasinfryn

Rhybudd 6 mis at berchenog yr hen Eglwys ein bod yn di-comisiynu y septic tanc wedi dod i ben.

Clerc i drefnu bod y tanc yn cael ei wagio a'i gau

Pan fyddai dyddiad wedi ei dderbyn bod hynny'n digwydd gofyn i'r Cyfreithwr anfon at berchenog yr Hen Eglwys i ddatgelu hynny

e. Cae chwarae Caerhun

Y Cytuned wedi ei osod a'r y Cwmni llwydianus wedi derbyn ond na fyddai'n gallu gwneud y gwaith tan tua Mis Mai 2023

f. Capel y Fynwent

i. Llawr newydd 1 amcanbris wedi ei dderbyn ond **angen ail oherwydd ei fod dros £5k**

ii. Trydannonl symud goleuadau/Goleuadau newydd **Gofyn am amcanbris**

iii. Paentio Wedi derbyn amcanbris gan Hughes & Hughes tra bydd y Sgaffol yn ei le.

Derbyn yr amcanbris hwnnw

iv. Cysgodfannau

1. Cylchlythyr – rhain yn barod i'w dosbarthu ar ol cadarnhad o Gwynedd

2. Cyngor Gwynedd Cyfarfod safle wedi digwydd

g. Cwt y Fynwent

1. Amcanbris £1840.00

Wedi derbyn amcanbris i dynnu a storio'r llechi sydd yn gyfa, Adnewyddu'r Coed to a'r platiau wal cyn ei doi gyda sheetia a gosod fasia a lander

Yn gyffredinol teimlo fod y swm yn uchel i doi shed sydd mewn gwirionedd yn ddi-werth oherwydd ei uchder a diffyg drws addas wedyn

Angen ail-ystyried

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00